COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.30 y.p., Dydd Iau 30 Medi 2021
Cynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor - cofnodion 1 i 9.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (Cadeirydd), Toni Schiavone (Is-gadeirydd), Caroline Davies, Stephen Nicholls, Chris Franks, Salamatu Fada, Judith Evans, Cathy Clark, Jan Tiley, Gareth Cork; hefyd Suzanne Samuel, Dona Lewis a Victory Ezeofor – pob un o gofnod 3 ymlaen; a Tim Palazon o gofnod 4 ymlaen. Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Siôn Aled Owen (cyfieithydd – gwasanaeth cyfieithu ar y pryd). Hefyd Michelle Kerswell (Rheolwr Cwricwlwm – cofnodion 1-3 yn unig).
Ymddiheuriadau: Marion Burke, Carl Hoskins, Jenni Jones-Annetts, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd).
Yn absennol: Steve David.

2. Cofnodion Busnes Agored cyfarfod y Cyngor ar 27 Gorffennaf 2021 a materion yn codi

Cafodd cofnodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd dau fater yn codi. Yn achos cofnod 12 (tiwtoriaid Addysg Sylfaenol Oedolion), dywedodd Cath Hicks fod tri o'r pum staff oedd dan sylw wedi derbyn diswyddiadau gwirfoddol, a dau wedi'u penodi i swyddi oedd ar gael. Byddai'r Pwyllgor Archwilio yn trafod y swyddi hyn, a drosglwyddwyd o Goleg y Cymoedd yn 2018, ar sail papur a baratowyd ar gyfer ei gyfarfod yr wythnos ddilynol, a byddai'n rhoi adroddiad ynghylch ei drafodaethau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Ac yn achos cofnod 13 (aelodaeth y Pwyllgor Archwilio), roedd Caroline Davies wedi cytuno i ymuno â'r Pwyllgor fel aelod ychwanegol o'r Cyngor, a diolchwyd iddi hi gan Gadeiryddion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio.

3. Ein Cwricwlwm yn 2020-21 a chynlluniau ar ei gyfer yn 2021-22

Neilltuwyd llawer o amser y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, a chyfle i gael trafodaeth drylwyr ynghylch y thema bwysig hon gan aelodau'r Cyngor. Fe wnaeth Mark Baines a Michelle Kerswell roi eglurhad yn eu tro o'u cyflwyniad PowerPoint, gan rannu eu sgrin â'r cyfranogwyr; roedd Adroddiad Cwricwlwm ysgrifenedig yn darparu cefndir ffeithiol ychwanegol i'r pwyntiau a wnaed. Rhannwyd yr eitem yn dair elfen: cyflawniadau allweddol 2020-21; cynlluniau presennol ar gyfer 2021-22; a'r gwersi oedd wedi'u dysgu a'r heriau oedd yn parhau i fodoli o ran esblygu'n addysgol o Covid-19.

- **Cyflawniadau allweddol**: roedd cyflawni 62.6% o darged y ddarpariaeth addysgol yn 2020-21 (o gymharu â tharged diwygiedig y flwyddyn, sef 65%) yn siomedig, ond dylid ystyried hyn yng nghyd-destun nifer o

golegau addysg uwch yn cyflawni rhwng 40 a 60% o ran darpariaeth; felly, yng nghyd-destun y sector cyfan, nid oedd y cyflawniad yn wael. Roedd gwahaniaethau rhanbarthol o ran addysg wyneb yn wyneb yn gyfrifol i raddau helaeth am amrywiadau sylweddol mewn rhai achosion o ran cyflawni targedau. Yn benodol, ychydig iawn o ddosbarthiadau wyneb yn wyneb oedd wedi dychwelyd yn rhanbarth y Gogledd, yn rhannol oherwydd set wahanol o berthnasoedd â'n partneriaid yno, felly roedd y rhanbarth ar ei hôl hi o safbwynt cyflawni ei tharged, a gwaethygwyd hynny gan y nifer cymharol lai oedd wedi dewis cyfranogi mewn cyrsiau ar-lein yno.

Cafwyd llwyddiannau ar-lein annisgwyl; roedd dosbarthiadau crefftau, celf a gwau wedi addasu'n dda iawn i'r newid hwn ac roeddent yn hynod o boblogaidd. Clywyd nifer o ddyfyniadau cadarnhaol gan ein dysgwyr, oedd yn adlewyrchu'r ffaith fod gennym ni fwy o gryfderau na dim ond ein balchder yn ein statws fel darparwr addysg gymunedol. Roedd pobl wedi dod i werthfawrogi'r dosbarthiadau rhithwir roeddent yn rhan ohonynt, a chyrhaeddwyd at rai ohonynt trwy gyfrwng ein harlwy ar-lein mewn modd na fyddent wedi fel arall. Fodd bynnag, ni ellid gwadu y byddai'n well gan lawer ohonynt ddosbarthiadau wyneb yn wyneb traddodiadol.

- Cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod: roedd datblygiadau pellach o ran gweithredu technoleg ddigidol/rithwir yn ei ffurfiau amrywiol ar y gweill, â mwy o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer tiwtoriaid, a bellach, roedd tîm penodol wedi cael ei sefydlu i gefnogi dysgwyr â'u hanghenion ar-lein. Roedd y bartneriaeth â JISC yn bwysig o safbwynt strategol yn hyn o beth, ac roedd hynny'n gymorth i ehangu ein cwricwlwm ar-lein cynhwysol ac o ansawdd uchel. Byddai penodi Hyrwyddwr Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithrwydd, rôl datblygu **a** darparu, yn cynorthwyo i elwa'n llawn o grant y Gronfa Datblygiad Proffesiynol oedd yn bodoli ar gyfer gwaith cydweithredol yn y maes hwnnw a'i becyn e-ddysgu. Roedd potensial hefyd i ehangu darpariaeth WSOL gyda chyrff megis Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru. Roedd siart bar yn dangos sut roedd y sector ôl-16 cyfan yn ei chael hi'n anodd ehangu i'r maes cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Er y cydnabuwyd fod yr hyn roedd AOC|ALW yn ei gynllunio yn y maes hwn yn gyffredinol a heb ei achredu ar y cyfan, byddai hynny'n newid maes o law. Awgrymwyd fod y Mudiad Meithrin, gyda'i 20,000 a mwy o rieni, yn sector posibl i gael sylw cynyddol gan AOC|ALW.

Roedd Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) bellach yn cynrychioli bron iawn 40% o ddarpariaeth addysgol AOC|ALW. Roedd tîm prosiect AMIF yn cefnogi ei ehangiad iach yn Abertawe, roedd cytundeb strategol â YMCA Caerdydd yn ei le, ac roedd cysylltiadau hefyd â sefydliadau yn cynorthwyo ffoaduriaid o Affganistan â phosibilrwydd o dwf yn y maes hwnnw. Roedd AOC|ALW yn rhan sylweddol o bob safle/ardal Hwb Reach ESOL, er bod yr un yn Wrecsam yn llai ffrwythlon o ran ei ddeiliannau i'r Sefydliad. Roedd menter newydd y Cyfrifon Dysgu Personol yn gontract sylweddol gwerth £546,000, yn canolbwyntio ar fylchau mewn sgiliau cyflogadwyedd. Roedd y sylw ar y pryd ar sgiliau gwaith adeiladu - gyrru a hyfforddiant wagenni codi a theirw dur, ac roedd 13 o gyrsiau wedi'u cwblhau ar y pryd. Roedd y datblygiad hwn, oedd yn anrhagweledig i raddau helaeth, wedi cychwyn ym mis Awst.

Yn olaf o ran meysydd newydd, roedd Sgiliau Hanfodol Hyblyg - ar ben ein gwaith sgiliau hanfodol craidd - yn faes twf sylweddol oedd yn adeiladu ar waith diweddar gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr Lefel Mynediad a Lefel 1. Roedd yn cynnig cyfleoedd i gynhyrchu incwm a gallai gael ei ehangu mewn sefydliadau megis Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gan ddod yn rhan fwy canolog o'n harlwy addysgol. Rheolid y ddarpariaeth gan Sarah O'Connell Jones (Rheolwr Rhanbarthol, Rhanbarth y Gogledd), ac roedd hysbysebu ar gyfer hynny wedi cychwyn a byddai'n cael ei ehangu.

- Heriau: gallai amharodrwydd a nerfusrwydd o ran dychwelyd i ddosbarthiadau wyneb yn wyneb arwain at ddosbarthiadau llai eu maint, a gallai hynny effeithio ar ddichonoldeb addysgol agweddau o waith AOC|ALW. Yn anochel, byddai'n arwain at gynnydd mewn costau llogi canolfannau cymunedol, ond roedd hefyd yn golygu fod angen ymateb a fyddai'n newid yn gyson, o fewn arlwy cwricwlwm ymatebol.

Cyflwynwyd system yn dwyn sylw at nifer y cyrsiau ar-lein yr oedd unigolyn wedi cofrestru arnynt, heb roi cyfyngiad penodol ar y nifer.

O ran polisi ffioedd diwygiedig 2021-22, roedd ailgyflwyno ffioedd yn ariannol ei fwriad yn rhannol o ran denu rhywfaint o incwm, ond roedd hefyd yn gysylltiedig â'r canlyniad seicolegol oedd dan sylw, sef gwella cyfraddau cwblhau cyrsiau a chyfraddau llwyddiant o blith y rhai oedd yn talu am eu haddysg. Nid oedd hynny'n fater newydd o bell ffordd, ond roedd cyfaddawd diddiwedd rhwng y strwythur ffioedd newydd (oedd yn dal i fod yn gonsesiynol) a sicrhau mynediad i bawb. Roedd data oedd eisoes yn bodoli yn dangos y gydberthynas o ran deilliannau ansawdd yn glir, ond roedd polisi ffioedd Cymru gyfan yn ei wneud yn anoddach i'w weithredu'n deg. Roedd disgownt i deuluoedd ar ffioedd yn bosibilrwydd yn y dyfodol, fodd bynnag, a holwyd a ellid caniatáu talu mewn rhandaliadau hefyd.

I gloi, dywedodd rhai aelodau o'r Cyngor fod cyfanswm y dysgwyr yn dal yn ddangosydd pwysig yr oedd angen ei gofio. Adroddwyd hefyd y cafwyd problemau diweddar o ran recriwtio staff craidd yn ne orllewin Cymru yn benodol, ac ym maes tiwtoriaid ESOL a Chyflogadwyedd. Oherwydd anawsterau o ran canfod pobl ar gyfer rolau Swyddogion Cyflawni Cwricwlwm penodol, cafwyd cynnig i ailddiffinio'r swyddi hyn a'u hailenwi yn 'Gydlynwyr Datblygu'r Cwricwlwm', mewn ymateb i'r adborth a gafwyd yn ystod y broses recriwtio.

4. Diweddariad ar Newidiadau i Strwythur Staffio Marchnata ac Aelodaeth

Cadarnhaodd Cath Hicks fod Jonathan Goddard, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, wedi dewis diswyddo gwirfoddol a'r diwrnod hwnnw oedd ei olaf yn y swydd. Mynegodd y Cyngor ei ddiolch am ei gyfraniadau dros gyfnod o tua 18 mlynedd yn y Sefydliad a dymunwyd bob llwyddiant iddo. Roedd trosglwyddo dyletswyddau wedi bod yn bosibl ac roedd newidiadau cydredol wedi digwydd. Dywedodd hi nad oedd hysbysebu i gyd-fynd â dechrau'r flwyddyn academaidd wedi cael ei heffeithio gan y newidiadau hyn, a bod rhannau cynyddol o wefan AOC|ALW yn cael eu rheoli'n fewnol. Mewn adolygiad i'r brîff ar gyfer ymgynghorwyr wrth gomisiynu strategaeth farchnata o ffynonellau allanol, ychwanegwyd mater strwythur swyddi marchnata / eiriolaeth / aelodaeth. Y diwrnod canlynol oedd dyddiad cau derbyn tendrau ar gyfer yr ymgynghori hwnnw.

5. Cofrestr Risgiau Medi 2021

Dywedodd Mark Baines y byddai'r un fersiwn o'r Gofrestr hon gerbron y Pwyllgor Archwilio yr wythnos ganlynol i'w thrafod yn fanwl. Cafwyd yr unig sylw o'r Cyngor gan y Cadeirydd. **Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried: a oeddent yn credu bod 20 risg, fel yn y Gofrestr gyfredol, yn ormod i'w hystyried yn effeithiol; ac a oedd cyfiawnhad dros gynnal risgiau y rhoddwyd sgoriau graddio gwyrdd, isel iddynt (megis 2.1.1, ar anallu i recriwtio tiwtoriaid addas) o fewn y Gofrestr.**

6. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2021

Roedd y ddogfen hon yn dangos gwarged diwedd blwyddyn, a byddai'n cael ei harchwilio'n fanwl yr wythnos ganlynol gan y Pwyllgor Adnoddau. Wrth ateb cwestiynau, nododd Mark Baines na fyddai diffyg wedi bod ar y flwyddyn heb arian grant ychwanegol Llywodraeth Cymru; ac fel bob amser, byddai addasiad diffyg pensiwn FRS102 yn mynd i mewn i'r cyfrifon ar ôl eu harchwilio'n allanol. Ar hyn o bryd roedd cyfanswm posibl yr adfachiad (tua £147,000) a achoswyd gan dangyflawni targed addysgol y flwyddyn wedi'i gynnwys yn y cyfrifon fel didyniad. Fodd bynnag, roedd trafodaethau wedi cychwyn gyda Llywodraeth Cymru ynghylch a fyddai darpariaeth ychwanegol gan AOC | ALW yn y flwyddyn academaidd gyfredol yn ymateb amgen derbyniol. Wrth drafod cyfanswm tablau'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer 2020-

21, eglurwyd nad oedd unrhyw dargedau wedi'u cynnwys yn y rhes 'Prosiectau' oherwydd eu bod yn ddarnau ychwanegol o waith, a gymerwyd ymlaen wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen; a bod blychau gwag yn y tablau yn cyfeirio at ddim darpariaeth.

7. Holiadur Adolygu Llywodraethu a'r trafodaethau dilynol

Esboniodd Stephen Thomas y bu rhai blynyddoedd ers i ymarfer gwerthuso ysgrifenedig gael ei gynnal ymhlith aelodau'r Cyngor ynghylch eu hasesiad o lywodraethu'r Sefydliad. **Felly byddai ymarfer o'r fath yn cael ei gynnal dros yr wythnosau nesaf mewn dau gam. Yn gyntaf byddai holiadur ysgrifenedig i'w gwblhau gan bob aelod o'r Cyngor; ac yna trafodaeth un ac un rhwng un o dri swyddog y Cyngor ac aelodau eraill**, i roi cyfle mwy cynhwysfawr i adolygu eu safbwynt ynghylch cryfderau a gwendidau presennol trefniadau llywodraethu'r Sefydliad.

8. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor a chynlluniau am gyfarfodydd y dyfodol

Byddai cyfarfodydd y Pwyllgorau Adnoddau ac Archwilio yr wythnos ganlynol yn cael eu cynnal fel cyfarfodydd 'cyfunol' (hybrid) am y tro cyntaf mewn 18 mis, gyda rhai mynychwyr yn ymgynnull mewn ystafelloedd cyfarfod yn swyddfa Caerdydd. Yn seiliedig ar adborth o'r cynulliadau cyntaf hynny o'r fath, byddai dichonoldeb cynnal cyfarfod y Cyngor ddiwedd mis Tachwedd fel un cyfunol yn cael ei fesur. Adroddodd dau aelod o'r Cyngor eu profiadau diweddar cadarnhaol ar y cyfan o fod wedi dychwelyd i fannau cyfarfod ffisegol yn ystod yr wythnosau diwethaf gyda chyrff sefydliadau eraill. Roedd profion llif unffordd Covid-19 ar gael gan y Sefydliad pe bai angen hynny, megis felly tystiolaeth o gael dau frechiad ar gyfer y sawl oedd yn bwriadu mynychu wyneb yn wyneb.

9. Gweddill dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021-22

- Dydd Mawrth 23 Tachwedd 2021
- Dydd Llun 24 Ionawr 2022
- Dydd Iau 17 Mawrth 2022
- Dydd Gwener 8 Ebrill (CCB)
- Dydd Mawrth 10 Mai 2022
- Dydd Llun 4 Gorffennaf 2022

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 5	Cofrestr Risgiau Medi 2021	Gofynnodd y Cyngor i'r Pwyllgor Archwilio ystyried maint/cwmpas a manylion penodol rhai risgiau oedd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau.	ST / MB / Pwyllgor Archwilio	Hydref 2021
Cofnod 7	Holiadur ynghylch yr Adolygiad Llywodraethu a thrafodaethau unigol fel dilyniant	Byddai ymarfer adolygu yn cael ei gynnal dros yr wythnosau nesaf mewn dau gam. Yn gyntaf byddai holiadur ysgrifenedig i'w gwblhau gan bob aelod o'r Cyngor; ac yna trafodaeth un ac un rhwng un o dri swyddog y Cyngor ac aelodau eraill.	ST / swyddogion y Cyngor ac aelodau'r Cyngor	Tachwedd 2021